## ATODLEN 1

Rheoliad 4

### Bandiau a Ffioedd Ceisiadau

**1.** Mae'r bandiau a'r ffioedd fel a ganlyn—

| *Band y cais a disgrifiad ohono* | *Y ffi ar gyfer penderfynu ar gais* |
|---|---|
| **Band 1** | |
| Unrhyw gais sy'n ymwneud ag:<br>(a) atgyweirio neu ailosod bolltau, fflapiau, falfiau, byrddau ar lanfa neu ysgraff;<br>(b) symud ymaith dyfiant morol a gwano oddi ar unrhyw adeilad neu strwythur neu unrhyw ran ohono;<br>(c) gosod ysgolion wrth unrhyw adeilad neu strwythur;<br>(d) dyddodi pyst a'u symud ymaith wedi hynny at ddibenion marcio sianeli, ardaloedd dwr bâs, arllwysfeydd a grwynau;<br>(e) dyddodi bwiau marcio a'u symud ymaith wedi hynny;<br>(f) defnyddio cerbyd neu lestr i symud ymaith fân ddarnau arwahanol o falurion nad ydynt ynghlwm wrth wely'r môr (gan gynnwys polion, trawstiau, distiau a mân wrthrychau tebyg) sy'n gysylltiedig ag adeiladu, dymchwel, difrod neu adfeiliad adeilad neu strwythur;<br>(g) cael gwared ar ysbwriel gan ddefnyddio cerbyd neu lestr; neu<br>(h) unrhyw mân weithgaredd tebyg. | £600 |
| **Band 2** | |
| Unrhyw gais nad yw'n dod o fewn disgrifiadau Band 1, neu nad yw'n dod o fewn disgrifiadau Band 1 yn unig, ac sy'n ymwneud â gweithgaredd penodedig. | £1,920 |
| **Band 3** | |
| Unrhyw gais nad yw'n dod o fewn disgrifiadau Band 1 neu Fand 2, neu nad yw'n dod o fewn disgrifiadau Band 1 neu Fand 2 yn unig. | Cyfrifir y ffi ar gyfradd o £120 yr awr. |

**2.** Ym mharagraff 1, yn ddarostyngedig i'r eithriad ym mharagraff 3, ystyr "gweithgaredd penodedig" ("*specified activity*") yw unrhyw weithgaredd sy'n dod o fewn un neu ddwy o'r eitemau a ganlyn—

(a) eitem 1 (dyddodion o fewn ardal trwyddedu morol y DU etc.) o adran 66(1) o'r Ddeddf;

(b) eitem 7 (adeiladu, addasu neu wella gweithfeydd etc.) o adran 66(1) o'r Ddeddf;

(c) eitem 8 (defnyddio cerbyd, llestr, awyren, strwythur morol neu gynhwysydd arnofiol i symud sylweddau ymaith etc.) o adran 66(1) o'r Ddeddf; neu

(d) eitem 9 (cyflawni unrhyw ffurf ar dreillio etc.) o adran 66(1) o'r Ddeddf ond dim ond i'r graddau y mae eitem 9 yn ymwneud â threillio o ran cynnal a chadw.

**3.** Nid yw gweithgaredd penodedig yn cynnwys—

(a) unrhyw weithgaredd sydd i'w gyflawni fel rhan o brosiect o fath a bennir yn Atodiad I i Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/92/EU(**1**)ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd;

(b) unrhyw weithgaredd sydd i'w gyflawni fel rhan o brosiect o fath a bennir yn Atodiad II i'r Gyfarwyddeb honno, os yw'n debygol oherwydd ei faint, ei natur neu ei leoliad o effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd;

(c) gweithgaredd y mae asesiad o'r effaith amgylcheddol yn ofynnol mewn cysylltiad ag ef yn rhinwedd rheoliad 5 (gofyniad am asesiad drwy gytundeb) o Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007(**2**);

(d) gweithgaredd sy'n cynnwys eitemau 7 a 9 a ddisgrifir ym mharagraff 2(b) a (d);

(e) unrhyw weithgaredd neu weithgareddau, neu fwy nag un gweithgaredd gyda'i gilydd, sydd â chost amcangyfrifedig o fwy na £1,000,000.

(**1**) OJ L 26, 28.1.2012, t.1.
(**2**) O.S. 2007/1518; diwygiwyd gan O.S. 2011/735, 1043, 2013/755 a 2015/446.